# Cenn@d

EBRILL 1 2026 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* | RHIF 266

## Penodi'r Parchg Simeon Baker yn Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd Undeb Bedyddwyr Cymru

Hyfrydwch yw cyhoeddi penodiad y Parchg Simeon Baker fel Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd Undeb Bedyddwyr Cymru (UBC).

Cymeradwywyd y penodiad trwy benderfyniad unfrydol Cyngor Unedig UBC a derbyniwyd cymeradwyaeth eglwysi'r Undeb.

Mae gan Simeon 35 mlynedd o brofiad gweinidogaethol ac arweinyddol mewn cyd-destun Cristnogol, ar lefel leol a chenedlaethol.

Fe'i magwyd yn ardal Drefach Felindre a bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Ar ôl gweithio ym maes Cyfrifiaduron a Thechnoleg Gwybodaeth, synhwyrodd Simeon alwad i'r weinidogaeth. Dilynwyd hyn gan gyfnod yn hyfforddi a gweinidogaethu yn Ruislip, Lloegr, cyn iddo ddychwelyd i Gymru i weinidogaethu yn Eglwys y Bedyddwyr Bethel, yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Er 2012 bu'n gwasanaethu'r Undeb fel Cyfarwyddwr Cenhadaeth.



Mae Simeon bellach yn byw yng Nghaerdydd, gyda'i wraig, Janet.

Meddai Mr Bill Davies, Cadeirydd y Panel Penodi, "Yn dilyn proses recriwtio drwyadl a chystadleuol, penderfynwyd argymell enw'r Parchedig Simeon Baker i swydd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru i ddilyn y Parchedig Judith Morris. Mae ganddo brofiad eang a pherthnasol i ymateb i'r heriau a chyfleoedd sydd o'n blaen fel enwad.''

Dywed Simeon: "Anrhydedd a braint yw cael fy mhenodi i'r swyddogaeth hon, ac rwy'n gwerthfawrogi'n ddwfn iawn gefnogaeth ac ymddiriedaeth eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru. Fel Bedyddwyr, wynebwn nifer o heriau, yn ogystal â chyfleoedd arbennig ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth barhaol yng Nghymru. Mae hyn yn ein gwahodd i fod yn gadarn yn ein ffydd, ac yn hy yn ein gweithred."

Wrth amlinellu ei flaenoriaethau, dywedodd Simeon: "Yng nghanol newid, beth bynnag yw ein gweledigaeth, ein strategaeth neu ein strwythur, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn trysori ein pobl, ac yn bugeilio ein gilydd. Bydd adeiladau, strwythurau a chyllid yn mynd a dod, ond bydd cariad Duw yn parhau wrth i ni aros yn ei gariad. Yng ngeiriau Hebreaid 10:23: 'Gadewch inni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd y mae'r hwn a roddodd yr addewid yn ffyddlon'."




Mae'n bleser gan Undeb Bedyddwyr Cymru gyhoeddi ein bod bellach wedi codi £8,031.02 dros fisoedd y gaeaf ar gyfer apêl cefnogi eglwysi yn Wcráin.

Fe wnaeth Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF) lansio apêl, dros fisoedd y gaeaf, i gefnogi'r Eglwys yn Wcráin. Y nod oedd bod 500 o eglwysi lleol yn Wcráin yn cael eu galluogi i ddarparu llety, cynhesrwydd a nwyddau angenrheidiol i bawb mewn angen y gaeaf hwn. Fel teulu Bedyddiedig yng Nghymru, roedden ni am chwarae ein rhan drwy godi arian ar gyfer ein chwiorydd a'n brodyr sydd yn parhau i ddioddef effeithiau rhyfel, yn enwedig rhai sydd yn ymwneud â thargedu adnoddau egni hollbwysig.

Byddai rhodd o £2,000 o eglwysi Bedyddiedig yng Nghymru wedi bod yn ddigon i ddarparu gwres i un eglwys yn Wcráin ar gyfer y gaeaf i gyd. Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi codi digon o arian i gefnogi pedair eglwys drwy'r gaeaf hwn!

Mae'r arian wedi mynd yn uniongyrchol at gefnogi eglwysi yn Wcráin a fu'n gweithredu fel llochesi, mannau diogel, a chanolfannau cynnes dros y gaeaf, ac i'r gwanwyn. Y gaeaf hwn oedd yr un caletaf yn Wcráin ers blynyddoedd lawer. Felly mae'r rhoddion o wledydd Ewrop i gyd yn hollbwysig.

Fel ymateb i'n rhoddion, rydym wedi cael ein partneru â phedair eglwys yn Wcráin. Yr eglwysi hynny yw: The Ark of Salvation, Evangelical Christian Baptist Church 'Golgotha', Evangelical Christian Baptist Church of the City of Khmilnyk ac The Ark of Hope. Gofynnir i ni gadw'r pedair eglwys a'r gweinidogion yn ein gweddïau wrth iddynt barhau i wasanaethu'r cymunedau o'u cwmpas drwy'r rhyfel sy'n parhau.

Diolch o galon i bob un eglwys ac unigolyn sydd wedi cyfrannu mor hael at yr apêl!

**Cyfraniad Godidog Capel Bethany, Rhydaman (1881–2023)** Tudalen 4

**O Gefn Gwlad** Tudalen 5

**Y Pasg** *Desmond Davies* Tudalen 7

# Deddfwriaeth newydd bwysig sy'n berthnasol i waith plant yn yr eglwysi

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ddeddfwriaeth eilaidd newydd bwysig a fydd yn effeithio ar eglwysi a sefydliadau ffydd ledled Cymru. Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 25 Mawrth, yn diweddaru am y tro cyntaf ers 2010 y rheolau sy'n llywodraethu pwy sydd angen cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. Ac mae ganddo oblygiadau uniongyrchol i *crèches*, grwpiau rhiant a phlentyn bach, ysgolion Sul, clybiau gwyliau, a darpariaeth ieuenctid. Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2027, gyda chyfnod trosiannol yn rhedeg tan 1 Ebrill 2028.

Mae Cytûn wedi bod yn weithgar wrth lunio'r ddeddfwriaeth hon. Ym mis Hydref 2025 cyflwynwyd ymateb ymgynghori ffurfiol gennym i Lywodraeth Cymru ar ran ein henwadau aelod, gan godi pryderon sylweddol ynghylch y baich ar ddarpariaeth eglwysig a arweinir gan wirfoddolwyr. Rydym yn falch bod nifer o'r pryderon hynny wedi'u hadlewyrchu yn y Gorchymyn terfynol – yn fwyaf nodedig, nid yw cynnig a fyddai wedi mynnu cofrestru lle bynnag y byddai darparwr yn cynnig mwy nag un math o weithgaredd wedi'i gynnwys, a fyddai wedi gosod ysgolion Sul, clybiau gwyliau, a dosbarthiadau ffydd ledled Cymru mewn sefyllfa anodd iawn.

Rydym wedi paratoi briff polisi manwl sy'n nodi'r prif newidiadau a'u goblygiadau ar gyfer darpariaeth sy'n seiliedig ar eglwysi. Rydym yn annog yn gryf bob swyddog enwadol ac arweinydd eglwys i'w ddarllen yn ofalus ac i ystyried pa gamau a allai fod eu hangen o fewn eich strwythurau eich hun. Mae'r briff ar gael yn Gymraeg yn https://www.cytun.co.uk/wp-content/uploads/2026/03/Cytun_Briff_Polisi_Gofal_Plant_2026_CY_v2.docx ac yn Saesneg yn https://www.cytun.co.uk/wp-content/uploads/2026/03/Cytun_Policy_Brief_Childcare_2026_EN_v2-1.docx.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar pe gallech geisio barn eich arweinwyr perthnasol – boed yn swyddogion plant, gweithwyr ieuenctid, neu arweinwyr eglwysi lleol – ynghylch sut y gallai'r newid hwn effeithio ar eu gweinidogaeth a'u cenhadaeth ar lawr gwlad. Bydd deall yr effaith wirioneddol ar draws ein henwadau aelod yn helpu Cytûn i gynrychioli eich buddiannau'n effeithiol wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ategol cyn dyddiad cychwyn mis Ebrill 2027. Rhannwch unrhyw adborth gyda mi'n uniongyrchol ar y cyfeiriad isod.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*
*iestyn@cytun.cymru*

# Ymddeoliad y Parchedig Ian Sims, Dosbarth yr Arfordir



Bore Sul, 22 Mawrth, traddododd y Parchedig Ian Sims ei bregeth olaf yng Nghapel Newydd/Triniti, Llanelli, fel gweinidog y pedwar capel yn Nosbarth yr Arfordir. Yn ystod yr oedfa rhannwyd crynodeb o'i hanes gan Mr Bill Griffiths, blaenor yng Nghapel Bryn Seion, Llangennech, a thalwyd teyrnged iddo am ei wasanaeth dros ddeng mlynedd yn ein plith. Olrheiniwyd ei yrfa o'i fagwraeth yn Salem (Capel y Cwm), Bon-y-maen; ei addysg yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera a'i gyfnod fel dyn ifanc yn y gwaith dur, hyd at ei yrfa am 30 mlynedd gyda'r heddlu ac yn ddiweddarach yn yr Adran Ymchwiliadau Troseddol. Tra oedd yn gweithio gyda'r heddlu dilynodd gwrs mewn Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan, gan raddio yn 2010. Yna, aeth ymlaen i Goleg Bangor i ddilyn cwrs bugeiliol i'w gymhwyso at y weinidogaeth.

Yn 2011 fe'i hordeiniwyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru a derbyniodd alwad i ardal Llandeilo, lle bu'n weinidog ar chwe chapel. Yna yn 2016 derbyniodd wyth capel Gofalaeth yr Arfordir i'w ofal yn ogystal. Yn ystod ei gyfnod fel gweinidog yr Efengyl bu'n Llywydd ac Ysgrifennydd Henaduriaeth Myrddin yn ogystal â Llywydd Sasiwn y De. Diolchwn am ei weinidogaeth a'i ofal dros ei braidd.

Yn dilyn yr oedfa dathlwyd yr achlysur dros ginio ym Mhlas Llanelly pan gafwyd cyfle i gymdeithasu a hel atgofion. Cyflwynwyd rhodd o flodau i Andrea, gwraig y gweinidog, gan Mrs Diana Pugh-Jones, blaenor yn Horeb, Mynyddygarreg, a dymunwyd ymddeoliad hir a hapus iddynt fel teulu.

*Elinor Wyn Nicholson*

# Cyfraniad Godidog Capel Bethany, Rhydaman (1881–2023)

Daeth tristwch i galon miloedd ohonom yng Nghymru wrth glywed bod aelodau Capel Bethany wedi pleidleisio ar 10 Gorffennaf 2023 i gau'r achos a fu mor flodeuog ar hyd yr ugeinfed ganrif yn nhref Rhydaman. Cadarnhaodd Henaduriaeth Myrddin eu penderfyniad ar 26 Hydref 2023, a chafwyd oedfa ddatgorffori gyda'r Parchedig Ddr Stephen Nantlais Williams yn traethu'r Gair y bu ei deulu yn ei gyflawni yn yr adeiladau am ddegawdau.

Ceid gwreiddiau Bethany ym mhentref Betws lle y bu Howell Harris yn traethu, ac erbyn 1870 ceid dyhead am gapel i'r Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg yn y dref a oedd yn tyfu ac a elwid yr adeg honno yn Cross Inn. Agorwyd y capel, a gostiodd £900, ym mis Mai 1881, gyda gweinidog y Betws, y Parchedig W. Landeg Powell, yn weinidog ar yr eglwys newydd. Dilynwyd ef yn 1894 gan weinidog ifanc o'r enw Rhys Jones, a gredai mewn pregethu Beiblaidd. Ond ychydig o gyfle a gafodd gan iddo farw ym mlodau ei oes yn 1896 ac yntau'n ddim ond 33 mlwydd oed.

Bu'r eglwys yn wag am gyfnod hir cyn iddynt alw'r union ŵr i'w bugeilio, William Nantlais Williams (1874–1959), o'r Wyddgrug, ger Pencader, un o ddeg o blant. Oherwydd i'w frawd farw, bu'n rhaid iddo yntau ymadael â'r ysgol yn gynt nag y bwriedid iddo, a dilyn galwedigaeth gwehydd. Dechreuodd bregethu yn 1894 a derbyniwyd ef o Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn i Goleg Trefeca yn 1897. Dechreuodd fugeilio Eglwys Bethany yn 1900 (a Llandybïe y pryd hynny o dan yr un fugeiliaeth). Ordeiniwyd ef yn 1901 a bugeiliodd braidd Bethany hyd ei ymddeoliad yn 1944.

Daeth i Bethany yn arwr byd y beirdd. Cafodd y wobr am gasgliad o delynegion yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1902, a chyhoeddodd ddwy gyfrol o delynegion, sef *Murmuron y Nant* (1898) a *Murmuron Newydd* (1926). Ond daeth newid sylfaenol i'r bardd-bregethwr ar benwythnos 4–5 Tachwedd 1904 pan ddaeth y Parchedig Joseph Jenkins i gyfarfodydd yn Bethany. Yn y pnawn adroddodd fel yr oedd y Diwygiad wedi cychwyn yn ei eglwys ef, Tabernacl, Ceinewydd, yna yn eglwys ei nai, y Parchedig John Thickens yn Aberaeron, ac yng Nghapel Blaenannerch pan achubwyd Evan Roberts ym mis Medi.

Cododd gŵr o'r enw Henry Jones ar ei draed, ac ar ei liwt ei hun, cyhoeddodd y byddai cyfarfod gweddi y nos Lun dilynol, a hwythau'n disgwyl Gwili, Athro yn Academi Gwynfryn, i ddarlithio yn y festri! Ac ar y nos Wener, derbyniodd Nantlais ei hun brofiad byw o Grist Iesu fel Gwaredwr enaid pan ganwyd yr emyn, 'Diolch iddo / byth am gofio llwch y llawr'. Bendithiwyd gweinidogaeth Nantlais a gwelwyd tröedigaethau cyson a phobl yn ymorol am y bywyd tragwyddol. Daeth y capel yn rhy fach ac aeth y Gweinidog a'r blaenoriaid ati i ailadeiladu capel mwy yn 1927, adeilad i ddal wyth gant. Fe'i hagorwyd yn Hydref 1929 gyda J. T. Job (a aeth i'r weinidogaeth o Bethany) a Dr Martyn Lloyd-Jones yn pregethu.

Magwyd nifer dda o genhadon a phregethwyr ym Methany. Aeth dau o feibion Nantlais a'i briod yn weinidogion: y Parchedig Geraint Nantlais Williams a'r Parchedig Brifathro Rheinallt Nantlais Williams, fy athro mewn Athroniaeth yn y Coleg Diwinyddol. Mae gennyf ddyled enfawr iddo. Aeth Huxley Thomas yn genhadwr i fryniau Casia ac Anna Hopkins i Shillong. Gwasanaethodd Ewart Jones yn yr Ariannin a Chanada, a Colin Nicholas yn y Congo.

Cafodd Nantlais weinidogaeth ryfeddol gyda phlant Bethany a'r Cyfundeb cyfan. Roedd dawn Nantlais Williams i ysgrifennu i blant yn un na fu mo'i chyffelyb. Ceir llawer o'i emynau i blant yn *Moliant Plentyn* (dwy gyfrol) a *Corlan y Plant*. Ceir rhai o'i emynau hefyd yn y casgliad a baratôdd ar gyfer Eglwys Bethany a Chynhadledd Efengylaidd y Sulgwyn (a sefydlwyd ganddo), sef *Clychau Seion*. Ar ôl ei ymddeoliad, cyhoeddodd *Emynau'r Daith*, sy'n cynnwys 57 o'i emynau Cymraeg, ynghyd ag 18 o rai Saesneg. Cenir ei emynau'n gyson, er enghraifft, 'Yn dy law y mae f'amserau', 'Pwy yw hwn sy'n rhodio'r tonnau' a 'Pwysaf arnat, addfwyn Iesu'. Bu galw mawr arno fel pregethwr. Coleddai safbwynt efengylaidd clasurol gan amddiffyn Calfiniaeth yn y Sasiynau. Cafodd ei ddewis yn Llywydd Cymdeithasfa'r De a hefyd yn Llywydd yn 1947 y Gymanfa Gyffredinol.

Defnyddiodd lawer pulpud at ei wasanaeth yn Bethany: un ohonynt oedd y wasg. Bu'n gyd-olygydd *Yr Efengylydd* am 16 o flynyddoedd, cylchgrawn gwerth ei ddarllen heddiw, yn gyd-olygydd y *Lladmerydd* dros dymor, a bu'n ysgrifennu ar Faes Llafur Ysgolion Sul yr Oedolion yn *Y Cymro* am rai blynyddoedd. Ef oedd golygydd *Trysorfa'r Plant* o 1933 i 1945. Cymerodd ran mewn ymgyrchoedd efengylaidd ac ym mhrif wyliau ei enwad. Meddai ar lais soniarus, ac o drugaredd gellir ei glywed o hyd yn y rhaglen o Ganiadau'r Cysegr o Bethany yn 1954 i ddathlu 50 mlynedd Diwygiad 1904–05. Mae'n wirioneddol wych; ewch i chwilio am y wledd ar y We.

Ar ei ymddeoliad, tasg fawr oedd chwilio am olynydd i'r gŵr mawr a fu'n arwain am 42 o flynyddoedd. Derbyniodd yr eglwys arweiniad Duw a gwahoddwyd gweinidog ifanc a oedd yn gofalu am Gapel Llangyfelach, ger Abertawe, y Parchedig John David Williams, a daeth ef i arwain ym mis Awst 1944. Gofalodd Nantlais fod y gynulleidfa'n rhoi pob cefnogaeth iddo fel y derbyniodd ef, ac felly y bu. Arhosodd Nantlais yn gyn-weinidog yn Bethany yn cefnogi J. D. Williams hyd ei allu. Bu farw ar 18 Mehefin 1959 a chladdwyd ef ym mynwent Bethany, Rhydaman. Bûm yn gweld ei fedd a darllenais ei hunangofiant, *Golwg ar Ben Nebo*, a gyhoeddwyd gan y teulu yn 1967.

Gŵr annwyl iawn oedd y Parchedig J. D. Williams, cynnyrch Capel Pen-uwch yng nghyffiniau Llangeitho, a'i briod, Olwen Williams (née Thomas), yn un a fagwyd yng Nghapel Cymraeg Heathfield Road, Lerpwl. Magwyd hi ar aelwyd selog a bu ei chwaer, Mrs Jenny Jones, yn aelod yn ystod fy mlynyddoedd cynnar yn Lerpwl cyn iddi symud i Abergele. Deuai'r ddau i Lerpwl bob blwyddyn, a chofiaf wahodd eu mab, y Parchedig Gwyn Williams, a wasanaethodd yr Eglwys Efengylaidd yng Nghaerdydd, i bulpud Heathfield Road.

Arhosodd y Parchedig J. D. Williams yn Bethany am 37 mlynedd gan ddenu cyfeillion efengylaidd i blith y praidd. Achubwyd J. D Williams yn 1946, yr un noson ag a gafodd Eunice Morris yr un profiad, a daeth hi yn ôl i Bethany yn

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Cyfraniad Godidog Capel Bethany, Rhydaman (1881–2023)*

*(parhad o dudalen 3)*

1982 fel gwraig y gweinidog a ddilynodd 'JD'. Olynydd J. D. Williams oedd yr efengylydd hoffus, y Parchedig Gareth H. Davies, y cefais ei adnabod gyntaf yn ystod ei gyfnod yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Roedd Gareth Davies wedi gweinidogaethu ym Mhontardawe a Trinity, Llanelli, cyn symud i Bethany mewn cyfnod lle'r oedd hi'n anoddach i gadw'r fflam yn fyw. Roedd ef yn gyn-löwr ac fel Nantlais yn hoff o farddoni. Ond gwelodd gryn lawer o golledion. Bu farw pump o flaenoriaid yn 1986–7; achos i wylo oedd hyn, ond cafodd gwmni efengylydd arall yn ei gynulleidfa, sef y Parchedig T. Arthur Pritchard a'i briod, Eunice, ar ôl iddynt symud i Bontaman.

Ar ôl ymddeoliad y Parchedig Gareth H. Davies (1927–2005), bu'r eglwys yn ddyfal chwilio, a chofiaf dderbyn llythyr caredig yn gofyn imi ystyried gadael Lerpwl am bulpud Nantlais, JD a Gareth Davies. Naturiol oedd ystyried, ond daeth yr arweiniad imi aros ym Methel a ninnau'n ymboeni am ddyfodol ein tystiolaeth ninnau.

Gŵr o dueddiadau efengylaidd oedd yr un a dderbyniodd y sialens, sef y diweddar, erbyn hyn, Barchedig Meurig Dodd, un a fagwyd yn y Capel Mawr yn Rhosllannerchrugog. Symudodd ef o gefn gwlad sir Ddinbych i Rydaman, ac er nad oedd ganddo ddoniau ei ragflaenwyr, bu'n hynod o ofalus fel bugail yr hen a'r methedig, y trallodus a'r cleifion. Roedd ef a'i briod yn arbennig iawn eu gofal a gwelais ef ar ei orau yn ei ymweliadau â'm ffrind cywir Bethan James, un o flaenoriaid Bethany. Bu hi ar y pererindodau a drefnwn lawer gwaith ac arhoswn, Meinwen a minnau, ar ei haelwyd pan bregethwn yn y de.

Derbyniai Meinwen, fy mhriod, groeso Capel Bethany pan fyddai hi a Bethan yn troedio'r llwybrau i addoli'r Goruchaf. Un o'r blaenoriaid gyda Bethan oedd Mrs Gaynor Jones, ysgrifennydd y capel hyd y diwedd, a mam i Steffan Jones sydd bellach yn weinidog ei hun. Cynnyrch godidog eto; roedd cymaint ohonynt wedi derbyn cynhaliaeth ysbrydol.

Deallaf i Bethany gael cyfnodau nodedig. Bu gweinidogaeth Nantlais o 1904 i 1944 yn nodedig iawn. Felly hefyd weinidogaeth J. D. Williams yn y pedwardegau a'r chwedegau, a gweinidogaeth Gareth H. Davies yn yr wythdegau. Dylid llunio cyfrol ar hanes gwerthfawr un o gapeli mwyaf nodedig y Cyfundeb, a gofidiaf mai datgorffori a ddigwyddodd ac nid uno ag un o gapeli eraill yr enwad yn y cyffiniau.

*D. Ben Rees*
*Lerpwl*

## Cyfarchion y Pasg o swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Annwyl Gyfeillion,

Dymuniadau am Basg bendithiol i chi i gyd.

Eleni eto, gyda'r byd fel be bai wedi mynd o'i go', cawn ein hatgoffa o eiriau'r angylion yn Efengyl Luc, "Pam yr ydych yn ceisio'r byw ymhlith y meirw? Nid yw ef yma, ond y mae wedi ei gyfodi" (Luc 24:5–6). Yn wyneb galluoedd y byd hwn sy'n aml yn ymddangos yn llawn tywyllwch a gofid, mae'r neges hon yn galw arnom i chwilio mewn man arall am sail ein heddwch, i fyw fel pobl y Pasg – pobl sy'n credu yng ngalluoedd y byd sydd i ddod, maddeuant, cariad, gras, bywyd newydd, a gobaith na ellir ei ddiffodd.

Dros y misoedd diwethaf, rydym ni fel Corff wedi bod yn ymgynghori'n eang ynghylch ailstrwythuro. Mae hon wedi bod yn broses onest ac agored o wrando ar ein gilydd, cydnabod ein gwendid a'n hangen, a cheisio arweiniad yr Ysbryd Glân wrth i ni wynebu'r dyfodol. Wrth wneud hynny, gweddïwn am ddoethineb ysbrydol, undod a gweledigaeth glir oddi wrth yr Arglwydd ei hun, ac inni gael profi o'r 'grymuster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist pan gyfododd ef oddi wrth y meirw' sydd ar gael i'r rhai sy'n pwyso arno ef ac nid ar eu deall eu hunain (Effesiaid 1:20).

Fe all ein trafferthion ein hunain ymddangos yn ddibwys wrth inni edrych ar y byd yn ehangach yn ei drafferthion yntau. Ond, wrth inni weld y rhyfel a'r tensiynau yn y Dwyrain Canol yn cynyddu, cawn ein galw fel Cristnogion i fod yn bobl sy'n sefyll dros nerth a grym gwahanol, nerth cymod a grym heddwch. Fel y mynegwyd gan arweinwyr eglwysi byd-eang, o dan arweiniad y WCRC (World Communion of Reformed Churches) mae angen ymrwymiad newydd a pharhaus i heddwch, a pharch at urddas pob person: WCRC Statement on the Escalating Violence in the Middle East - WCRC.

Yn yr un modd, mae CWM (Council for World Mission) wedi galw am barch at sofraniaeth a sancteiddrwydd bywyd, a cheisio llwybrau heddychlon clir ymlaen yng nghanol y trais presennol yn y Dwyrain Canol: CWM statement on USA and Israeli strikes on Iran: A call for peace, sovereignty, and the sanctity of life - Council for World Mission.

Yn wyneb hyn oll, cawn ein hatgoffa o eiriau syml Iesu i bob un ohonom sy'n ceisio ei Deyrnas ef: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd hwy a elwir yn blant Duw' (Mathew 5:9).

Ar nodyn o ddiolchgarwch, hoffwn fynegi gwerthfawrogiad diffuant i bawb sydd wedi cyfrannu'n ariannol tuag at apêl Manipur. Mae poblogaeth y dalaith fechan hon yng Ngogledd-ddwyrain India yn parhau i wynebu trais a dadleoli. Mae'r eglwys fyd-eang wedi uno mewn gweddi a chefnogaeth, gan sefyll gyda'r rhai sy'n dioddef, yn dystion i obaith y Crist Atgyfodedig ynghanol yr adfeilion. Er bod ein hapêl ariannol wedi dirwyn i ben, a'r cyfraniadau hyd yma yn £31,000, mae ein hapêl weddi a'n cyfarfod gweddi wythnosol yn parhau i gyfarfod yn rhithiol bob bore Gwener am 9 o'r gloch. Mae croeso i bawb ymuno.

Ar y Pasg hwn, boed i ni glywed eto alwad Duw i fod yn bobl ffyddlon, yn dystion ym mhob man i rym yr atgyfodiad, yn weithwyr dros heddwch, ac yn gymuned sy'n byw ar gariad Crist ac yn ei rannu mewn byd sydd ei angen mor daer.

Gan ddymuno i chi oll Basg bendithiol, llawn gobaith, llawenydd a heddwch,

*Nan Wyn Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

# O Gefn Gwlad

## Byw yn ymyl y nefoedd

Un o'r llyfrau sgrifennwyd flynyddoedd lawer yn ôl erbyn hyn yw *Cwm Eithin* gan Hugh Evans. Fe'i cyhoeddwyd yn 1931, dair blynedd cyn marw'r awdur. Er hyn nid llyfr hen ffasiwn mohono, ond darlun gwych o gymdeithas fel yr oedd hi bryd hynny. Ac os datganwn fod llyfrau'r gorffennol yn hen ffasiwn, man a man inni eu taflu drwy'r ffenest, y Beibl yn un o'r rhai cyntaf!

Ond rwy'n gwamalu. Am ddyfynnu yr oeddwn un neu ddwy o frawddegau Hugh Evans yn y gyfrol, un yn ddiffiniad o daranau sef: 'Y Creawdwr yn cerdded yn drwm drwy natur'. Mae yna rinwedd yn y dweud – yn ddigon cynnil, ac mae gofyn bod wrth gysylltu Duw efo natur, sy' ddim yn wir am emyn 116 yn *Caneuon Ffydd*, emyn y dylid ei fwrw allan, 'dech chi ddim yn meddwl? Yn ôl at Hugh Evans a'i ddyhead: 'O na chawn fynd yn blentyn yn f'ôl a byw yn ymyl y nefoedd.' Oedd y syniad o nefoedd yn fwy byw ynom pan oeddem yn blant, tybed? Nid ei fod yn syniad plentynnaidd.

Mae darllen y brawddegau hyn – yn enwedig yr ail – yn fy atgoffa o gerdd enwog gan un o fy hoff feirdd Saesneg, sef Wordsworth, a ddywedodd fwy neu lai yr un peth ag awdur Cwm Eithin, ac a welai Dduw mewn natur. Maddeuwch felly ambell ddyfyniad Saesneg o'i gerdd: *Ode on the intimations of Immortality*. Meddai: 'Heaven lies about us in our infancy.' Ie, byw yn agos i'r nefoedd, hawl pob plentyn bach, a dweud y gwir. Yr hyn sy'n dor calon yw nad gwir hyn i gymaint o blant y byd.

Ond os yw'r nefoedd yn agos i blant, i rai beth bynnag, y peryg yw fod y nefoedd honno'n cilio wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn, a bod rhyw bethau yn dod i wanhau'r goleuni, meddai Wordsworth:

> Shades of the prison house begin to close
> upon the growing boy.

Gofynion a deniadau yr hen fyd yma yw'r carchar, ac mae'n arwain yn y diwedd at ddiddymu goleuni'r nefoedd yn llwyr:

> At length the Man perceives it die away
> And fade into the light of common day.

Mae 'Man' wrth gwrs yn sefyll am y ddynoliaeth gyfan, ac mae'n syniad rhyfedd, yn tydi, mai math arall o oleuni sy'n dinistrio neu ddileu golau'r nefoedd, fel y credid erstalwm fod golau'r haul yn lladd tân a bod yn rhaid cau'r llenni cyn ei gynnau.

Ai dyma'r darlun cywir o'n bywydau ni yn yr hen fyd yma? Gwirionedd a gobaith unrhyw efengyl yn diflannu ynghanol ein byw trafferthus, ac addewid am unrhyw nefoedd yn ddim ond chwedl tylwyth teg , a bywyd yn y byd yn ddim ond bodolaeth mewn carchar – 'the prison house' – i ni sy wedi gadael ein plentyndod?

Ond nid cerdd drist besimistaidd mo gerdd Wordsworth. Mae ochor arall i fywyd. Fe blannwyd ym mhob un ohonom galonnau dynol sy'n gallu dyheu am rywbeth gwell, am fywyd yn ei lawn bosibiliadau, am nefoedd o'n mewn neu o'n cwmpas, a bod gennym deimladau a nodweddion sy'n barhaol ac nid yn diflannu fel niwl y bore pan awn yn hŷn.

Ac mae Wordsworth, gan mai bardd natur ydoedd yn bennaf, yn mynegi hyn yn ei ffordd arbennig ei hun, a dyma sut mae'r gerdd yn gorffen:

> Thanks to the human heart by which we live,
> Thanks to its tenderness, its joys and fears,
> To me the meanest flower that blows can give
> Thoughts that do often lie too deep for tears.

Onid meithrIn a gwarchod calonnau fel hyn yw ein dyletswydd, yn unigolion a chymdeithas? Dychmygwch sut fyd fydden ni'n byw ynddo pe bai pob un o'i drigolion yn meddu ar galon sy'n llawn tynerwch, yn llawn gorfoledd. Oni fyddem oll yn byw yn ymyl nefoedd, oedolion neu beidio?

*Elfyn Pritchard*

## *A Welsh Chapel*: rhaglen arbennig ar Radio Wales ddydd Llun y Pasg



Dydd Llun y Pasg, 6 Ebrill, am 6.30pm bydd y Parch. Rhys Locke yn cyflwyno rhaglen o'r enw *A Welsh Chapel* ar BBC Radio Wales. Mae'r rhaglen wedi bod yn dilyn gweinidogaeth Rhys yn Saron, Creunant, wrth iddo gyfarfod pobl yn y capel ac o fewn y gymuned ehangach. Mae Rhys hefyd wedi bod yn trefnu casgliad o wyau Pasg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ynghyd â noson elusennol yn y capel i godi arian ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r rhaglen yn cynnwys sgyrsiau gyda thrigolion am hanes y glowyr yn yr ardal, ac mae ynddi hefyd elfennau o addoliad o'r capel ei hun. Bydd y cyfan yn dod at ei gilydd mewn rhaglen arbennig ar BBC Radio Wales ddydd Llun y Pasg.

## DARLITH FLYNYDDOL MORLAN–PANTYFEDWEN 2026

**'Religion in the 21st-century university: a source of conflict or community?'**

Darlith gan **Dr Mathew Guest**
Athro mewn Cymdeithaseg Crefydd, Prifysgol Durham

**Nos Lun, 27 Ebrill, 2026**
**6.00 o'r gloch**
**MYNEDIAD AM DDIM**

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO CYNNES I BAWB

# Y GRAWYS – WYTHNOS 7

## Rhannu gobaith ar gyfer y dyfodol




### Darlleniad

*Mathew 13:1–23*

### Myfyrdod

Byddai Iesu yn aml yn defnyddio damhegion i gysylltu â phobl trwy eu gwahodd i fyfyrio ar wahanol safbwyntiau drwy gyfrwng stori, yn hytrach na cheisio ennill dadleuon. Mae'r darlleniad heddiw yn ein hatgoffa na fydd y straeon a'r negeseuon rydyn ni'n eu rhannu bob amser yn cael eu gwerthfawrogi a'u deall gan bawb, ond y gallant fod yn drawsnewidiol mewn rhai mannau.

Cawn ein galw i fyfyrio ar y cyfleoedd y gallwn eu cael yng nghyd-destun ein heglwys leol i gysylltu â phobl drwy stori, gan symud i ffwrdd o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn gwahanol benderfyniadau polisi, i ymgysylltu â straeon y rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt. Fel eglwysi, gallwn seilio'r gwaith hwn mewn gweddi, gan annog pobl i glywed straeon y rhai sy'n wynebu anawsterau a gweddïo dros eu hanghenion.

Rydym hefyd yn cael ein gwahodd i fyfyrio ynghylch sut y gallem rannu ein straeon ein hunain mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i gysylltu. Mae rhannu ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o gymuned yn fwy boddhaol a chadarnhaol pan fydd hyn yn cael ei werthfawrogi gan eraill, yn hytrach na'i wrthod. Mae gan yr Eglwys gyfle i greu mannau ar gyfer cyfarfod, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, lle gall pobl rannu eu hunaniaeth mewn cyd-destun o sensitifrwydd a pharch at ei gilydd, a dod at ei gilydd o amgylch heriau sy'n cael eu rhannu ganddynt.

Mae'r darlleniad heddiw yn ein hatgoffa y gall y gwaith hwn o rannu ein ffydd fod yn anodd. Mae'n bwysig meddwl ym mhle y gallwn gael cefnogaeth ar ein cyfer ein hunain. Yr heriau a wynebwn drwy beidio â chael atebion hawdd ac sydd angen ymrwymiad tymor hir. Gall ystyried ein sefyllfa bersonol a dangos tosturi tuag atom ein hunain ein helpu i ddangos gras ac empathi tuag at eraill, gan osod y sylfeini ar gyfer estyn allan mewn ffydd at bawb sydd angen derbyn neges o obaith ac iachâd.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Allwch chi feddwl am nofel, drama neu ffilm sydd wedi eich helpu i ddeall profiadau neu safbwyntiau gwahanol i'ch rhai chi? Pa ffactorau wnaeth eich helpu i gysylltu â'r stori?
- Yn eich profiad chi, pa fathau o bynciau sy'n anghyfforddus neu'n achos polareiddio mewn sgwrs ar hyn o bryd? Sut mae'r Eglwys yn ymateb i'r heriau hyn?
- Allwch chi feddwl am unrhyw enghreifftiau o arddangos hunaniaeth sy'n eich gwneud chi'n anghyfforddus? Beth fyddai angen ei newid er mwyn i chi brofi hyn fel rhywbeth cadarnhaol?

### Gweithredu

- Allech chi bartneru â rhywrai ym maes y celfyddydau i gynnal digwyddiad i adrodd straeon ynghylch materion hunaniaeth a pherthyn yn eich cymuned?
- Allech chi hwyluso deialog am heriau cenhadaeth a bod yn ddisgybl yn y cyd-destun presennol?
- Nodwch gamau hunan-ofal y gallech eu cymryd i'ch cefnogi eich hun yr wythnos hon.

### Gweddi

Duw cariadus,
Mewn byd lle mae angen straeon o obaith a chysylltiad ar bobl
helpa ni i fod yn ddyfeisgar ac yn greadigol yn ein hymdrechion
i rannu ein ffydd a'r gobaith a gawn ynot ti.
Rho ynom y dewrder i rannu ein straeon ein hunain
yn eirwir ac yn barchus
ac i wrando ar eraill
â chalonnau agored
gan ganiatáu i obaith ffynnu a thyfu.

Amen.

S4C

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 5 Ebrill, am 6:45yh – Sul y Pasg**

Bydd Nia Roberts yng Nghwm Tawe i arwain dathliadau'r Pasg. Cawn fwynhau awr o ganu mawl ysbrydoledig o Gapel y Nant, Clydach, perfformiadau cerddorol a darlleniadau o'r Beibl sy'n dod â stori'r Pasg yn fyw. Yn cymryd rhan bydd Angharad Brinn, Delwyn Siôn a Nia Price. A 25 mlynedd ers cyfansoddi'r gwaith, cawn fwynhau un o uchafbwyntiau 'Gorffennwyd', cantata fodern gan y cerddor Eilir Owen Griffiths, a fydd yn arwain perfformiad gan griw o'i gantorion ei hun, Côr Ifor Bach.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 5 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp – Sul y Pasg**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Elwyn Richards, Bangor

*Oedfa Radio Cymru*
**Dydd Gwener, 3 Ebrill, am 12:30yp – Dydd Gwener y Groglith**

Oedfa Gwener y Groglith o Gaernarfon, dan arweiniad Mererid Mair, Jenny Knott a Rhys Llwyd. Trafodir rhai o deimladau'r disgyblion a Christnogion ym mhob oes wrth y groes: siom, euogrwydd a galar. Ond nid ydynt heb obaith.

**Sul, 5 Ebrill, am 12:00yp –Sul y Pasg**

Oedfa Sul y Pasg o Gaernarfon dan arweiniad Anna Jane Evans, Dylan Williams a Hannah Smethurst. Bydd yn trafod yr Atgyfodiad, profiad Mair o ddagrau'n cael eu sychu a phrofiad Pedr ac Ioan o wacter y bedd – man i gyfarfod â'u hunain a chariad Duw.

# Y Pasg

Os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwithau. (1 Corinthiaid 15:14)

Fel yr Apostol Paul o'i flaen, mae Michael Ramsey, cyn-Archesgob Caergaint, yn gwbl bendant ei farn: 'No resurrection; no Christianity'. Nid atodiad yw'r atgyfodiad i'r ffydd Gristionogol; dyma galon, craidd a chanolbwynt y ffydd.

Wrth gwrs, rydym yn ein cael ein hunain heddiw mewn oes seciwlar, sinicaidd, pan fo cred yn yr atgyfodiad yn annerbyniol i lawer. Mae'r cyfan yn ymddangos yn afreal ac anwyddonol, meddir, fel petai'r pedwar efengylydd wedi cynllunio diweddglo hapus i stori bywyd Iesu. Yn anochel, bydd amheuon yn codi ym meddwl pawb ohonom ar brydiau. A yw'r hanes, wedi'r cwbl, yn wir?

Ar adegau fel hyn mae'n gysur mawr cofio i ganlynwyr Iesu eu hunain gael trafferth credu i Iesu gyfodi o'i fedd. Gadewir y gwragedd mewn 'penbleth' wrth ganfod fod y bedd yn wag, a chorff Iesu wedi diflannu. Tybia Mair mai'r garddwr sy'n ei chyfarch. I Cleopas a'i gymar ar ffordd Emaus, cyd-deithiwr dieithr yw'r hwn a ymunodd â hwy. I'r disgyblion ar nos Sul y Pasg 'ysbryd' ydyw, ac i'r pysgotwyr ar lan Môr Tiberias dieithryn ydyw. Pan yw Mair Magdalen a Joanna a Mair mam Iago yn rhannu â hwy eu profiad wrth y bedd gwag, daw'r un ar ddeg i'r casgliad mai 'lol oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwragedd'. Os cwyd amheuaeth yn ein meddwl ynghylch gwirionedd y Pasg, gallwn ymgysuro yn y ffaith nad ydym ar ein pen ein hunain, a'n bod yn hytrach mewn cwmni ardderchog.

Ond fe ddaeth y gwragedd a'r apostolion i gredu, hynny wrth iddynt gael y profiad o gyfarfod yn bersonol â'r Iesu byw. Mae'r diwinydd Emil Brunner yn gosod pwyslais mawr ar wirionedd yn nhermau ymgyfarfod (*encounter*): 'Yn y pen draw 'does a wnelo ffydd â chredu mewn rhywbeth – rhywbeth gwir, athrawiaeth o bosibl – ond â chyfarfyddiad personol.' Dyma'r union brofiad a gafodd canlynwyr Iesu. Daethant wyneb yn wyneb ag ef, a chwalwyd eu dryswch. Ac yn yr un modd Paul: 'Yn ddiwethaf oll, ymddangosoodd i minnau hefyd.' A phe baem yn holi Cristionogion o'n cyfnod ni – unigolion fel Simone Weil, C. S. Lewis a'r diwinydd Jürgen Moltmann – sut y daethant i ffydd, yr un fyddai eu tystiolaeth. Datguddiodd Iesu ei hun iddynt mewn ffordd gwbl annisgwyl pan nad oeddent hyd yn oed yn ystyried troi at grefydd, a daethant i argyhoeddiad.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn cofio dau beth. Yn gyntaf, nad oedd neb yn bresennol pan atgyfodwyd Iesu; nid ei weld *wrth* iddo atgyfodi a wnaed ond yn unig *wedi* iddo atgyfodi. Ac yn ail, nid adfywhau ohono'i hun a wnaeth. Rhaid ymwrthod yn llwyr â'r ddamcaniaeth ddi-sail honno mai cael ei glwyfo'n unig a wnaeth Iesu ar y groes, ei fod yn dal yn fyw pan gladdwyd ef, ac iddo ddod ato'i hun ymhen tridiau. Roedd araith Pedr ar ddydd y Pentecost yn ddiymwad: 'Iesu o Nasareth … fe groeshoeliasoch chwi ef drwy law estroniaid, a'i ladd. Ond cyfododd Duw ef, gan ei ryddhau o wewyr angau, oherwydd nid oedd dichon i angau ei ddal yn ei afael.'

Nid cyfodi yn ei nerth ei hunan a wnaeth Iesu, ond cael ei gyfodi gan Dduw. Gweithred o eiddo Duw oedd yr atgyfodiad. Yng ngoleuni hyn gwnawn dri gosodiad:

**1. Efengyl y Pasg yw Efengyl Iesu Grist**. 'Os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwithau.' Heb genadwri'r Pasg, does dim ffydd. Heb efengyl y trydydd dydd, 'does dim Testament Newydd. A fyddai'r pedwar efengylydd, ac awduron yr epistolau, wedi mynd i'r drafferth o ysgrifennu hanes Iesu a dechreuadau ei eglwys pe bai e'n dal yn farw?

Un o'r hanesion rhyfeddaf a glywyd ym mrawdlys Nürenberg, yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, oedd hwnnw a adroddwyd gan dyst a fu'n byw mewn bedd am gyfnod. Math o gladdgell (*vault*) oedd y bedd, mewn mynwent Iddewig yn Wilna yng ngwlad Pwyl, lle roedd ef, a nifer eraill, yn llochesu rhag y gelyn. Mewn cell gyfagos fe roddodd gwraig ifanc enedigaeth i blentyn, mab bychan, a bu'r hen dorrwr beddau cyfeillgar a charedig yn gweini arni yn ystod cyfnod yr esgor. Aeth y gŵr oedd yn adrodd yr hanes ati i farddoni, gan roi mewn cerdd y geiriau hyn ar wefusau'r torrwr beddau: 'Y Duw mawr, a ddanfonaist ti'r Meseia atom o'r diwedd? Oherwydd pwy ond y Meseia a fyddai'n cael ei eni mewn bedd?'

Y mae symboliaeth y stori'n rhyfeddol. Ganwyd ein ffydd mewn bedd. O'r bedd y cyfodwyd Tywysog Bywyd a Gwaredwr y Byd. Dyma'r eironi mawr. Man claddu yn troi yn fan geni! Trigfan y meirw yn troi yn fangre bywyd newydd! Newyddion da'r Efengyl yn dod i fod 'mewn beddrod tywyll du'! Dywed yr hanesydd eglwysig Adolf Harnack: 'Y bedd hwn oedd man geni'r gred anorchfygol fod marwolaeth wedi ei threchu, a bod bywyd tragwyddol yn ffaith.' Mewn unrhyw gyd-destun arall byddai'r ddau air 'man geni' a 'bedd' yn croes-ddweud ei gilydd yn llwyr, ond nid felly yn hanes y Pasg. 'O angau! pa le mae dy golyn? / O uffern! ti gollaist y dydd!'

**2. Eglwys y Pasg yw Eglwys Iesu Grist**. Drannoeth y croeshoeliad ymguddio'n nerfus y tu ôl i ddrysau clo a wnâi'r disgyblion 'oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon'. (Tybed a fyddem ni wedi ymateb yn wahanol?) Yn ddiweddarach clywir Simon Pedr yn datgan wrth y lleill ei fod yn mynd i ailafael yn y grefft o bysgota, ac mae hwythau'n cytuno i fynd gydag ef. Roedd hyn gystal â chyfaddef fod popeth yn eu meddwl hwy ar ben. Roedd yr anturiaeth fawr yng nghwmni Iesu, a roes gymaint o wefr iddynt ar y dechrau, drosodd. Roedd yr eglwys ar y creigiau.

Ond bu tro ar fyd. Gydag ymddangosiad Iesu, ac yn dilyn yr helfa fawr o bysgod, mae'r 'disgybl yr oedd Iesu yn ei garu' (Ioan, o bosibl) yn troi at Pedr gan ddatgan: 'Yr Arglwydd yw'. Mae'r trawsnewidiad sy'n digwydd ym mhrofiad ac ymagwedd y disgyblion yn syfrdanol. A hwythau wedi bod mor ofnus ac isel eu hysbryd, fe'u gwelir yn awr yn mentro allan yn arwrol i strydoedd Jerwsalem i gyhoeddi 'bod Duw wedi ei wneud ef yn Arglwydd ac yn Feseia, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi'. Trowyd eu galar yn orfoledd, eu hofn yn hyder, eu dadrithiad yn argyhoeddiad, eu hocheneidiau yn gân. Prin fod unrhyw eglurhad credadwy arall am y newid radical hwn yn eu hymddygiad ond bod ysbryd y Crist byw, a grym ei atgyfodiad, ar waith yn eu plith. O hyn ymlaen roedd yr eglwys ar y graig. Ac ar ôl i'r Ysbryd Glân ddisgyn ar yr apostolion ar ŵyl y Pentecost bu cynnydd yr eglwys o hynny



(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Y Pasg*

*(parhad o dudalen 7)*

ymlaen yn ddiymatal. Adroddir yn llyfr yr Actau am dair mil, ac yna am bum mil, yn troi'n gredinwyr, ac am 'nifer y disgyblion yn Jerwsalem yn lluosogi'n ddirfawr, a thyrfa fawr o'r offeiriaid yn ufuddhau i'r ffydd'. Rhyfeddol, a dweud y lleiaf.

Mae'r gymuned Anglicanaidd a sefydlwyd yn Mirfield, swydd Efrog, yn dwyn yr enw Cymuned yr Atgyfodiad (*The Community of the Resurrection*); dyna, mewn gwirionedd, yw'r eglwys yn ei hanfod. Ac o addasu'r enw a roddir ar fudiad y merched yng Nghymru mae'n briodol iawn ei galw yn Gymdeithas y Wawr. A chan mai eglwys y Pasg yw'r eglwys, mae'n dilyn fod holl bwerau'r atgyfodiad a holl nerthoedd y Pasg yn eiddo iddi.

Wrth ymateb i ddatganiad Pedr yng nghyffiniau Cesarea Philipi mai Crist yw'r Meseia, Mab Duw, dywed Iesu, 'Ac 'rwyf fi'n dweud wrthyt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau angau y trechaf arni' (yn ôl BWM, 'a phyrth uffern nis gorchfygant hi'). Mae'n bwysig sylwi ar y rhagenw personol 'fy'; nid eiddom ni, nac unrhyw sect nac enwad, mo'r eglwys ond eiddo Crist, ac yntau'n Arglwydd ac yn ben arni. Yr un rhagenw a ddefnyddia Iesu wrth siarsio Pedr yn dilyn yr atgyfodiad: 'Portha fy ŵyn', 'Bugeilia fy nefaid', 'Portha fy nefaid'. Ef, ac ef yn unig, biau'r praidd.

Un sylfaen fawr yr Eglwys
  yr Arglwydd Iesu yw,
ei greadigaeth newydd
  drwy ddŵr a gair ein Duw.

Mae dirywiad yr Eglwys yn ein gwlad yn achos gofid gwirioneddol. Mae lle i ddiolch am ei chynnydd mewn gwledydd yn Ne America a'r Affrig, ond beth ddaw ohoni yng Nghymru? Nid yw'n bosibl i ninnau rag-weld beth fydd ei ffurf a'i chyfansoddiad yn y dyfodol, ond mae'n anodd meddwl am ddyfod oes 'heb goron ddrain, na chur, na chroes'. Saif yr addewid: 'Nef a daear a ânt heibio, ond fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim.' Go brin y gall neb chwalu neu ddiddymu mudiad sydd â grymusterau anorchfygol y Pasg yn llifo drwy ei wythiennau.

Sonia David Jenkins, cyn-Esgob Durham, am ein tuedd i feddwl am atgyfodiad yn nhermau tragwyddoldeb a'r byd a ddaw. Ond, meddai, un o wirioneddau mawr y Pasg yw'r ffaith fod Crist, yn ei atgyfodiad, a thrwyddo, gyda ni yn awr, ynghanol troeon a thrafferthion byd a bywyd. Ac mae'n dal yn bresennol ynghanol ei eglwys er gwaethaf ei diffygion a'i methiannau. Ymgysurwn yn ei addewid fawr: 'Ni adawaf chwi'n amddifad; fe ddof yn ôl atoch chwi.'

**3. Egwyddor y Pasg yw hanfod y bywyd Cristnogol**. Yr egwyddor honno yw 'marw i fyw', nid marw, a hwnnw'n ddiwedd, ond marw er mwyn cyfodi i fywyd newydd, tragwyddol, sef bywyd o ansawdd newydd, amgenach. Mae Paul yn egluro: 'Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hyd yn oed yn eich cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi'. (Rhufeiniaid 8:11)

Sylwer ar yr ymadrodd 'ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chwi.' Dyma'r allwedd i'r cyfan. Pan yw ysbryd Crist, sy'n ysbryd cariad, gras, tangnefedd, addfwynder a goddefgarwch, yn ein meddiannu, yna, fe'n 'genir ni o'r newydd' i fath newydd o fywyd, a ddarlunnir yn y Testament Newydd yn nhermau gwisgo amdanom 'y natur ddynol newydd'. Fel tasen ni'n rhoi o'r neilltu hen gôt, oedd yn dangos tipyn o ôl traul ac nad oedd yn addas i'w gwisgo mwyach, ac yn rhoi amdanom, gôt newydd sbon. (Onid oedd hi'n arferiad gynt i gael dillad newydd erbyn Cymanfa Ganu Llun y Pasg?) Y dilledyn newydd yn y cyswllt hwn yw'r natur newydd, yr anian newydd, y ffordd newydd o fyw ac ymddwyn sy'n tystio i waith gras yn y galon. 'Nid yw Cristionogaeth i mi mwyach', meddai George M. Ll. Davies, 'yn fater o Gorff Diwinyddiaeth neu Drefnyddiaeth Eglwysig, ond yn fater o ysbryd Cristaidd'. Daeth John Stott, yntau, i gasgliad tebyg, sef mai'r peth canolog yn y bywyd Cristnogol yw'r broses o ymdebygu i Grist (*Christ likeness*) – 'O na bawn ni fel efe.'

Er mwyn i hyn ddigwydd rhaid marw yn gyntaf, nid, wrth reswm, yn llythrennol neu'n gorfforol, ond o ran profiad. Er mwyn esbonio hyn try Paul at fyd amaeth: 'Ddyn ynfyd, beth am yr had yr wyt ti yn ei hau? Ni roddir bywyd iddo heb iddo farw yn gyntaf.' A'r un modd Iesu wrth iddo sôn am y gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear: 'os yw'n marw, y mae'n dwyn llawer o ffrwyth'. Yr un yw egwyddor y bywyd Cristnogol: marw i fyw; marw er mwyn byw; marw i'r hunan er mwyn profi'r bywyd helaethach sydd yng Nghrist. Meddai C. S. Lewis: 'You don't really start living until you've got something to die for.'

Darlunnir hyn mewn modd effeithiol iawn pan weinyddir bedydd trochiad, neu fedydd credinwyr. Cynlluniwyd y fedyddfa â grisiau bob pen iddi, fel bod y sawl a fedyddir yn dod i mewn iddi o un ochr ac yna, yn hytrach na throi a mynd allan yr un ffordd, yn esgyn allan ohoni yr ochr arall. Symbol yw hyn, wrth gwrs, o'r marw i'r hen fywyd (y claddu yn nyfroedd y bedydd) a'r codi i fywyd newydd yng Nghrist. Arwydd allanol ydyw o'r profiad mewnol ac ysbrydol: 'Trwy'r bedydd hwn i farwolaeth, fe'n claddwyd gydag ef, megis yr atgyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd' (Rhufeiniaid 6:4). Wrth gwrs, mae hwn yn brofiad i bob Cristion, fel y tystia'r Pêr Ganiedydd:

Fe'm ganwyd i lawenydd uwch
  nag sy 'mhleserau'r llawr,
i gariad dwyfol, gwleddoedd pur
  angylion nefoedd fawr.

Symbol tra effeithiol o'r union brofiad hwn yw'r dull o fedyddio a ddisgrifir uchod, sy'n tanlinellu'r ffaith mai 'pobl y Pasg ŷm ni, a Haleliwia yw ein cân'.

*Desmond Davies*

*(O'i gyfrol* Heb Os, *a gyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair yn ddiweddarach yn y flwyddyn)*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru